**Cefnogaeth Gweithgareddau Amgylcheddol i Ysgolion**

**Taflen Gyswllt**

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael i gynorthwyo ag addysg a gweithgareddau amgylcheddol yn ysgolion Sir y Fflint. **ben.turpin@siryfflint.gov.uk**

| Sefydliad/Adran Gwasanaeth | Cynnig cefnogaeth | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|
| **Tîm Newid Hinsawdd** | • Creu Pecynnau Gwaith Hinsawdd i Ysgolion, yn cynnwys cyfrifiadau carbon a chreu cynlluniau lleihau carbon.<br>• Cyflwyniadau/Ymgysylltu â Newid Hinsawdd<br>• Ymholiadau cyffredinol | Enw: Climate Change Team<br>E-bost: newidhinsawdd@siryfflint.gov.uk<br><br>Dolenni i'r wefa: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Climate-Change/Climate-Change-Home.aspx |
| **Tîm Ynni Annomestig** | • Arweiniad i leihau'r ynni a ddefnyddir mewn ysgolion<br>• Cefnogaeth i ddefnyddio ynni digidol (darllen mesuryddion)<br>• Cefnogaeth i reoli gwres (BMS) | Enw: Energy.Unit@siryfflint.gov.uk<br>Dolenni i'r wefan:<br><br>Digital Energy Ynni digidol (cofnodi data ar ôl darllen mesuryddion a dadansoddi faint o ynni mae ysgolion yn ei ddefnyddio)<br>Pecyn Gwaith Hinsawdd Ysgolion<br>Hafan Newid Hinsawdd |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth Cyngor Sir y Fflint** | Gallwn gefnogi ysgolion i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â materion amgylcheddol lleol sydd yn effeithio ar ddisgyblion a'r gymuned ehangach - megis sbwriel, baw cŵn, a thipio anghyfreithlon - yn ogystal â darparu sesiynau addysgiadol ar ailgylchu a lleihau gwastraff.<br>Rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau hwyliog ac addysgiadol i helpu disgyblion ddysgu, cymryd rhan, ac ymfalchïo yn eu hamgylchedd, yn cynnwys:<br>• Cystadlaethau posteri/baneri ar brif negeseuon<br>• Sesiynau casglu sbwriel yn yr ysgol neu ardaloedd lleol<br>• Cyflwyniadau rhyngweithiol neu wasanaethau ar sbwriel, baw cŵn, a thipio anghyfreithlon<br>• Ymwybyddiaeth o faw cŵn a sbwriel gan ddefnyddio paent chwistrellu bioddiraddadwy y gellir ei olchi<br>• Addysg am dipio anghyfreithlon a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd lleol<br>• Sesiynau rheoli ailgylchu a gwastraff rhyngweithiol<br>Gallwn hefyd gefnogi i drefnu ymweliadau i gyfleusterau gwastraff lleol, yn cynnwys ffatri Troi Gwastraff yn Ynni Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy a chyfleuster dreulio anaerobig gwastraff bwyd Biogen yn Llanelwy, gan roi cipolwg go iawn ar sut mae gwastraff yn cael ei brosesu a'i droi mewn i ynni.<br>Yn ogystal â'n hymgyrchoedd ein hunain a rhai ein partneriaid (megis 'Bagio, Binio', 'Dim Ond Glaw i Lawr y Draen', 'Gwanwyn Glân', 'Cerddwyr Cŵn Gwyrdd', 'Eich Dyletswydd Chi yw Gofalu', 'Wythnos Ailgylchu', 'Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff' a llawer o rai eraill), rydym ni'n hapus i deilwra sesiynau i anghenion eich ysgol neu lunio a hwyluso prosiectau sy'n seiliedig ar syniadau a chyfraniad gan ddisgyblion ac eco-grwpiau brwdfrydig. | Enw: Adriana Szostakowska<br>E-bost: Adriana.Szostakowska@siryfflint.gov.uk<br>cadwchsiryfflintyndaclus@siryfflint.gov.uk<br><br>Ffôn: 07775676329<br>Dolenni i'r wefan:<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/Learning-Resources.aspx<br><br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Green-Dog-Walkers.aspx |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae mwyafrif ein hadnoddau yn barod i'w defnyddio, ynghyd â dolenni cwricwlwm a chysylltiadau i Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, gan ei gwneud hi'n hawdd i'w cynnwys nhw yn yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.<br><br>Rydym wir yn annog ysgolion a lleoliadau eraill i estyn allan atom ni, gan na allwn ni gyflawni ein nodau i godi ymwybyddiaeth am yr amgylchedd ac adfer balchder yn yr ardal leol heb eu cyfraniad nhw. | |
| **Tîm Mynediad (Hawliau Tramwy Cyhoeddus)** | Cynorthwyo â phob ymholiad hawliau tramwy cyhoeddus o amgylch ysgolion. Cysylltiadau posibl i wella neu adnabod y rhwydwaith Hawliau Tramwy Gyhoeddus leol o amgylch yr ysgol. | Enw: Stuart Jones<br>E-bost:<br>stuart.jones@siryfflint.gov.uk<br>Tel: 07876442831<br>Dolenni i'r wefan:<br>https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Public-rights-of-way.aspx |
| **Walk Wheel Cycle Trust** | Rhaglen Siwrneiau Llesol - Cefnogaeth teithio llesol am ddim i ysgolion, yn cynnwys sesiynau fel sgiliau sgwter a sesiynau cynnal a chadw beiciau. | Enw: Hannah Meulman<br>E-bost:<br>hannahmeulman@walkwheelcycletrust.org.uk<br>Ffôn: 07927578625<br>Dolenni i'r wefan:<br>https://www.walkwheelcycletrust.org.uk/cy/amdanom-ni/ein-gwaith-gydag-ysgolion-yng-nghymru/rhaglen-teithiau-iach/ |
| **Tîm Amgylchedd Naturiol yn yr Adran Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol** | Cyngor a chefnogaeth i brosiectau natur, adnoddau addysgiadol, efallai bod gennym ni gyllid grant ar gyfer prosiectau hefyd (bydd hyn yn dibynnu ar y prosiect a'r cyllid mae gennym fynediad ato ar y pryd). Gallwn hefyd ddarparu cysylltiadau amgylcheddol. | Enw: Biodiversity team<br>E-bost:<br>bioamrywiaeth@siryfflint.gov.uk<br>Ffôn: 01352 703263 |

| | | |
|---|---|---|
| | | https://www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Countryside-and-Coast/Nature-in-Flintshire.aspx<br>https://www.bionetwales.co.uk/cy/adref/ |
| **Cadwch Gymru'n Daclus: Eco-Sgolion** | Cefnogaeth i sefydlu ac i gynnal eich Eco-Bwyllgor/Gyngor. Syniadau ar gyfer gweithredoedd sy'n cysylltu gyda'r cwricwlwm, ac arweiniad ar gyfer y gwobrau Efydd, Arian a Baner Werdd. | Enw: Catrin Hughes<br>E-bost: catrin.hughes@keepwalestidy.cymru<br>Ffôn: 07824 504797<br>Dolenni i'r wefan: https://keepwalestidy.cymru/eco-schools/cy/ |
| **Cadwch Gymru'n Daclus: Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** | Mae gennym gannoedd o becynnau gardd am ddim i'w rhoi i grwpiau cymunedol, ysgolion a sefydliadau cymunedol eraill.<br><br>Mae ein pecynnau rhagdaledig yn amrywio o brosiectau gardd bach i berllannau a thrawsnewidiadau ar raddfa fawr. Mae pob un yn cynnwys llawer o blanhigion cynhenid, offer, adnoddau a deunyddiau eraill.<br><br>Byddwn yn trin yr archebion ac yn dosbarthu, a bydd ein swyddogion prosiect medrus yno i'ch helpu i osod eich gardd newydd. | Enw: Mair Davies (north Wales project coordinator)<br><br>E-bost: mair.davies@keepwalestidy.cymru<br><br>Ffôn: 07786 749286<br><br>Dolenni i'r wefan: https://keepwalestidy.cymru/cy/ein-gwaith/cadwraeth/natur/ |